

Cyngor Cymuned Llanelian (252)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mawrth 4ydd 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Gordon Hayes Thomas D Jones Cyng. Richard Jones	Hefina Williams Glenys Jones T Elfyn Hughes Cyng. Wil Hughes	Helen Hughes Carol Whitaker David Herbert
------------	---	---	---

Ymddiheuriadau: Cyng. Aled M Jones

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths.

Croesawyd aelodau o dîm Partneriaeth Arfordir Treftadaeth Môn a diolch iddynt am eu hamser.

1 Datgan Diddordeb

Hefina Williams – Cytundeb Torri Gwair

Glenys Jones – Cais cynllunio Seren Wen

Ni fydd y Cyngorwyr Sirol yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn ymwneud a cheisiadau cynllunio.

2 Cyflwyniad gan Aelodau Partneriaeth Arfordir Treftadaeth Môn

Cafwyd crynodeb o gais am arian loteri (cronfa treftadaeth) am brosiect fydd yn cymryd lle rhwng Mai 2015 ac 2018. Mae'r prosiect wedi ei ddatblygu gyda nifer o fudiadau lleol a chenedlaethol, a'i bwrpas yw diogelu treftadaeth yr arfordir yng ngogledd Môn.

Trafodwyd nifer o syniadau ar gyfer y prosiect yn ardal Llanelian gan gynnwys cynnig hyfforddiant sgiliau cadwriaethol (e.e. codi waliau cerrig), cofnodi gwybodaeth leol (e.e. enwau caeau a thraethau), a datblygu ffyrdd i wella mynediad (e.e. codi ymwybyddiaeth a gwella mynediad i'r Eglwysi hanesyddol yn y plwyf).

Cytunwyd ei fod yn bwysig cofnodi gwybodaeth a rhannu sgiliau tra bod unigolion yn y gymuned sydd a'r profiad a'r gallu ar gael i wneud hynny.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Hefina Williams, Eilio Glenys Jones.

4 Materion yn Codi

4.1 Cyfethol Aelodau - Wedi dilyn canllawiau'r Cyngor Sir i benodi aelod newydd i'r Cyngor Cymuned, dim ond un person sydd wedi dangos diddordeb yn ymuno a'r Cyngor. Cytuno gwahodd John Griffiths i gyfarfod nesaf y Cyngor. CET

4.2 Lon Ysgubor lthal - Mae e-bost wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir yn cadarnhau bod y lon wedi ei fabwysiadu a bod yr Adran Briffyrdd yn ymwybodol o'i gyflwr. Bydd gwaith i'w ail-wynebu yn cymryd lle yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd. Cytuno cadw golwg ar y sefyllfa.

4.3 Llythyr Gorsaf Bŵer Trawsfynydd - yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, cafwyd cadarnhad gan Un Llais Cymru bod toriad wedi ei gynnwys yn y rhaglen dadgomisiynu wreiddiol er mwyn arbed arian am y cyfod hwnnw. Y syniad yw bod posib i'r llywodraeth gyfeirio'r arian yma at ddadgomisiynu pwerdai eraill o gympas Prydain yn y cyfnod hwn. Gofynnwyd i'r Clerc anfon e-bost i ofyn a oedd y toriad yng nghyd fynd a'r cynllun dad-gomisiynu gwreiddiol, ac os oedd sicrwydd i ddiogelwch y safle yn ystod y cyfnod yma. CET

4.4 Materion Parcio - yn dilyn cyfarfod o'r is-bwyllgor fe gafwyd diweddariad o'r sefyllfa, ac fe gafodd y mater ei drafod gan y Pwyllgor Llawn. Fe gynigwyd bod - CET

- Y gwaharddiadau yn y gilfan yn aros yr un peth (2awr)
- Paentio blychau yn y gilfan er mwyn annog parcio trefnus (a gallu parcio mwy o gerbydau yno)
- Paentio blychau parcio dros y ffordd i'r gilfan (gwaharddiad hanner awr rhwng 8-6)
- Llinellau melyn o'r gilfan hyd y gyffordd, ac o'r blychau hyd y gyffordd.

Roedd yr aelodau presennol yn cytuno'n unfrydol a'r cynnig. Y Clerc i gysylltu â Huw Percy i'w hysbysu o benderfyniad y Cyngor a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf os oedd am drafod ymhellach.

5 Materion Ariannol

5.1 Cyfrifon – roedd copi o'r cyfrifon ar gael i'r sawl oedd am eu gweld.

5.2 Cyfraniadau Blynnyddol – Cytuno parhau a'r cyfraniadau blynnyddol. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu cynnwys yn y briseb yn y dyfodol. CET

- 5.3 Ceisiadau am Arian - derbyniwyd nifer o lythyrau yn gofyn am gefnogaeth ariannol gan y Cyngor. Nid oedd unrhyw un ohonynt o fudd uniongyrchol i ardal Llanelian. Penderfynwyd ffurfio is-bwyllgor i drafod unrhyw geisiadau yn y dyfodol.
- 5.4 Cae Chwarae - penderfynu peidio prynu mwy o risgl ar hyn o bryd a cheisio sicrhau arian grant i osod wyneb rwyber o dan yr offer chwarae. Bydd angen cyfarfod o'r is-bwyllgor i drafod ymhellach. Cynigwyd bod Carol Whitaker yn ymuno a'r is-bwyllgor. Cynnig TD Jones, Eilio T Elfyn Hughes. CET
- 5.5 Cytundeb Torri Gwair - Un tendr sydd wedi dod i law, gan Richard Edwards. Cynigwyd bod y Cyngor yn derbyn y tendr. Cynnig T Elfyn Hughes, Eilio TD Jones. Y Clerc i ysgrifennu at Mr Edwards i gadarnhau derbyn y pris. CET

Mae'r cytundeb am gyfnod o bum mlynedd, gyda'r pris am y cyfnod wedi ei seilio ar gostau'r flwyddyn gyntaf (gyda chodiad o 2% pob blwyddyn). Nid oes digon o arian wedi ei neilltuo yn y briseb am 2014/15 ond mae gan y Cyngor ddigon o arian wrth gefn am y flwyddyn gyntaf (fe gafodd y briseb ei seilio ar gostau 2013/14).

6 Cynllunio (ni fydd y Cynghorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)

Roedd tri chais i'w drafod –

- Seren Wen (mynediad o'r lon fawr) – dim sylw
- Rhos Mynach (trac) – dim sylw
- Llanfoi (Ystafell haul) – dim sylw

CET

7 Unrhyw Fater Arall

- 7.1 Cyfarfod a'r comisiynydd Heddlu - cafwyd adroddiad cryno gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod a Winston Roderick comisiynydd yr Heddlu. Pwysleiswyd ei bod yn bwysig cysylltu â'r Heddlu i gofnodi pob achos er mwyn i'r darlun ystadegau troseddol fod yn un cywir. Dywedwyd hefyd bod Mr Roderick yn barod i wrdd â Chynghorau Cymuned yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth a phryderon.
- 7.2 Hyfforddiant Cod Ymddygiad - Mae llythyr wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir yn ymwneud a newidiadau i'r ffordd y maent yn bwriadu cynnal hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Bydd yr hyfforddiant newydd wedi ei anelu at y Clerc, gyda phwyslais ar agweddau cyfreithiol, yr ymrwymiad i drin eraill a pharch ac ystyriaeth a'r angen i ddeall y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a rhagfarnus, a beth sydd angen ei ddatgan, pryd a sut. CET
- 7.3 Coeden Nadolig - daw cynnig bod Penysarn yn cael coeden Nadolig, ac y buasai modd cael gwasanaeth carolau i godi arian i'r Neuadd. Buasai efallai posib i'r Ysgol gefnogi hefyd. Buasai David Gerrard yn canfod y goeden a'r goleuadau, a bydd modd cael trydan o'r Neuadd. Cefnogwyd y syniad mewn egwyddor, a chytuno ffurfio is-bwyllgor i drafod mewn manylder yn nes at yr amser.
- 7.4 Aelodaeth Un Llais Cymru – cytuno talu aelodaeth am y flwyddyn. CET

8 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf –

1/4/2014, 13/5/2014, 10/6/2014, 8/7/2014, 5/8/2014, 2/9/2014, 14/10/2014

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 9 o'r gloch.

CET03/2014